



Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr Llanberis, Yr Wyddfa

ANODD/LLAFURUS



## Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 11km (6.8 milltir)
- Hyd: 6 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl

## Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

[eryri.llyw.cymru](http://eryri.llyw.cymru)







1  
Dechreuwa Llwybr Llanberis ym mhen draw Rhes Victoria, sy'n arwain i lawr o'r gylchfan gyferbyn â gwesty'r 'Royal Victoria' ar ben deheuol y pentref.



2  
Ewch trwy'r giât ger y grid gwartheg a dilynwch y ffordd serth. Bydd y ffordd yn mynd heibio Pen y Ceunant Isaf, ac yna trwy fuarth fferm. Ychydig ar ôl mynd trwy'r buarth, dilynwch y llwybr amlwg i'r chwith sydd wedi'i arwyddo 'Llwybr Llanberis'.




3  
Mae'r llwybr yn dringo'n raddol ac ymhen ychydig fe fyddwch yn mynd heibio adfail hen fwthyn ar y chwith i chi, a gorsaf Hebron islaw ar y dde. Yn y man, fe ddowch at giât fynydd.




4  
O'r giât fynydd bydd y llwybr yn parhau i ddringo'n raddol yn gyfochrog â'r rheilffordd.



5  
Yn y man fe fyddwch yn mynd o dan bont y rheilffordd.



6  
Wedi mynd o dan y bont bydd y llwybr yn parhau i ddringo'n raddol gyda'r rheilffordd ar y chwith i chi. Yn y man, byddwch yn pasio Tŷ Hanner Ffordd, lle mae lluniaeth ar gael yn ystod tymor yr haf. O'r fan hon ymlaen bydd y llwybr yn dechrau dringo'n fwy serth.



7  
Yn y man fe ddowch at waelod Allt Moses, lle mae'r llwybr yn fforchio. Cadwch i'r chwith a dilyn y llwybr sy'n dringo i fyny llethrau Llechog.



8  
Ar ben uchaf Allt Moses byddwch yn mynd o dan bont y rheilffordd. Wedi i chi fynd o dan y bont, daw Cwm Glas Bach i'r golwg islaw ar y chwith. Cymerwch ofal ar y rhan hwn.



9  
Ar ôl Cwm Glas Bach mae'r llwybr yn dringo'n serth i fyny llethrau Carnedd Ugain gyda Chlogwyn Coch ar y dde i chi. Byddwch yn ofalus ar y rhan yma o'r llwybr, a pheidwch byth â cherdded at hyd traciau'r rheilffordd. Yn y man fe ddowch i Fwllch Glas.



Ym Mwlch Glas, mae maen hir sy'n nodi'r man lle mae Llwybr Pyg a Llwybr y Mwynwyr yn ymuno â Llwybr Llanberis. Dros eich ysgwydd dde, yr ochr draw i'r rheilffordd, fe welwch Lwybr Cwellyn yn codi o Fwlch Cwm Brwynog ac yn croesi'r rheilffordd i ymuno â Llwybr Llanberis, sydd hefyd wedi'i farcio â maen hir.



Ar eich ffordd i lawr o'r copa, ymhen ychydig ar ôl pasio maen hir Bwlch Glas cadwch i'r chwith - mae'r llwybr i'r dde yn dilyn pedol yr Wyddfa, ac yn arwain dros Garnedd Ugain a Chrib Goch.